

# Cartrefi

## heddiw ar

## gyfer yfory

**Datgarboneiddio Tai Cymru rhwng 2020 a 2050**

**CAM 2:**

**Archwilio potensial y stoc tai yng Nghymru i gyrraedd targedau datgarboneiddio 2050**

Ed Green, Simon Lannon, Jo Patterson, Heledd Iorwerth

Ysgol Pensaernïaeth Cymru

Rhifyn: 18.07.2019



## CAM 2 Cartrefi Heddiw ar Gyfer Yfory:

Archwilio potensial y stoc tai yng Nghymru i gyrraedd targedau datgarboneiddio 2050

# 1. crynodeb gweithredol

Y darn gwaith hwn oedd ail 'gam' yr ymchwili i gefnogi rhaglen Datgarboneiddio Tai Llywodraeth Cymru. Ar gyfer arolwg rhychwantu Cam 1, gweler yr hyperddolen: <http://orca.cf.ac.uk/115442/>

Prif nod yr astudiaeth hon oedd deall i ba raddau y gallai natur y stoc tai bresennol yng Nghymru lywio'r gwaith o ddatblygu llwybr tuag at ddatgarboneiddio, yn ogystal ag ystyried costau ynni a gwres fforddiadwy.

Defnyddiwyd 14 'math' o annedd dro ar ôl tro i edrych ar effaith gweithredoedd ôl-osod allweddol ar stoc tai Cymru, trwy fodelu pob math o annedd ym 1990, yn 2018 ac yn 2050. Caiff effaith y gweithredoedd ôl-osod ei hesbonio yn nhermau cost cyfalaf, allyriadau carbon, costau ynni parhaus a gorgynhesu. Caiff costau cyfalaf hefyd eu cymharu â chostau cynnal a chadw parhaus tebygol. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r newidiadau yn y rhwydwaith cyflenwi ynni, oherwydd yr ansicrwydd presennol ynghylch datgarboneiddio'r cyflenwad ynni, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar y penderfyniadau a wneir.

Os yw'r targedau am ddatgarboneiddio yn mynd i fynd y tu hwnt i 80%, yn unol â chyfarwyddyd diweddar CCC y dylai Cymru dargedu gostyngiad o 95% mewn allyriadau carbon erbyn 2050 o gymharu â lefelau 1990, mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd anelu at net di-garbon drwyddi draw yn y stoc tai bresennol. Dyma'r prif argymhellion:

- Rhaid pwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod y grid cenedlaethol yn cyflenwi mwy na 60% o ynni glân erbyn 2050.
- Bydd hyn yn anochel yn cynyddu cost ynni. Rhaid cymryd camau gweithredu i ddiogelu teuluoedd sy'n agored i niwed, er mwyn sicrhau nad canlyniad pellach yw cynnydd mewn tlodi ynni.
- Ni ddylid gwahaniaethu rhwng safonau perfformiad ar gyfer ôl-osodiadau ac adeiladau newydd. Yn yr un modd, ni ddylid gwahaniaethu rhwng safonau ar sail deiliadaeth neu fath o dŷ.
- Mae gan rai tai gyfyngiadau o ran ôl-osod, sy'n ymwneud yn bennaf â chymeriad a nodweddion hanesyddol. Fodd bynnag, rhaid diffinio'r cyfiawnhad dros 'fethiannau derbyniol' yn ofalus fel na fydd yn peryglu targedau datgarboneiddio.
- Rhaid ôl-osod yr holl dai eraill y tu hwnt i SAP90, i gyflawni sgôr EPC A.
- Rhaid i'r gwaith ôl-osod oresgyn y bwch perfformiad (h.y. dylid mesur y canlyniadau fel y'u cyflawnwyd, nid fel y rhagwelwyd).
- Mae'n haws gweithredu'r safonau ôl-osod ar gyfer tai cymdeithasol a'r sectorau PRS. Rhaid cynnal gwaith i edrych ar sut i ddechrau'r lefel ôl-osod hon yn y sector yn eiddo i berchen-feddianwyr.
- Dull hyblyg sy'n gwrthio pob tŷ i gyflawni safonau perfformiad priodol erbyn 2050 yw'r unig ffordd i ni ragweld sut i gyflawni lefelau datgarboneiddio 90% neu uwch o dan y sefyllfaoedd cyflenwi ynni rhagdybiedig.